



# *Llyfryn Gwybodaeth i Rieni*

Dod i'r  
ysgol

Dal ati i  
ddysgu

Paratoi

## Canllawiau a Disgwyliadau ail-agor

### Annwyl Riant/Gwarchodwr

Fel yr ydych yn gwybod, mi fydd ysgolion yn ail-agor ar gyfer yr holl ddisgyblion ar y 29ain o Fehefin, 2020. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd â rheini sydd yn weithwyr allweddol a disgyblion bregus. Mae tymor y haf wedi cael ei ymestyn o wythnos, ac felly mi fydd y tymor yn diweddu ar Ddydd Gwener y 24ain o Orfennaf.

Yn Ysgol Cynddelw, rydym wedi dechrau cyfrifo yn ofalus sawl disgybl fydd yn gallu mynychu'r ysgol i bob dosbarth ac wedi rhannu y rhai sydd yn dod yn ôl i'r ysgol i grŵpiau. Mi fydd y disgyblion yn aros gyda'u grŵp drwy'r diwrnod gyfan. Byddent yn dychwelyd yn ôl at eu athro/athrawes a'u cymorthydd dysgu arferol. Ni fydd y disgyblion yn dychwelyd yn llawn amser gan nad yw hyn yn bosib. Rydym yn deall na fydd y disgyblion yn gallu gweld pob aelod o'u dosbarth, ond rydym yn gydwytbodol mai'r ffordd yma yw'r orau bosib i bawb.

Ein ffocws yn y bedair wythnos olaf yw rhoi cyfle i'r disgyblion i 'Dod i'r ysgol, Dal ati i ddysgu a Paratoi' ar gyfer yr haf a mis Medi tra rydym i gyd yn ceisio dychmygu sut fydd y 'normal newydd' efallai yn edrych. Byddwn yn ymdrechu i'r eithaf i sicrhau fod ein staff, disgyblion a'n rhieni yn barod – yn feddylol, yn emosiynol ac yn ymarferol ar gyfer yr hyn sydd o'm blaenau ni. Rydym wedi creu llyfryn ar eich cyfer er mwyn dileu unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych, ac i roi cymorth, lle fo'r angen i chi wneud eich penderfyniad. Dydy hi ddim yn statudol i'ch plentyn i ddychwelyd i'r ysgol felly rydym yn parchu unrhyw benderfyniad rydych yn ei wneud ynglŷn a'r hyn sydd orau i'ch plentyn yn ystod yr amser yma.

Darllenwch yr holl lyfryn os gwelwch yn dda a'i ddefnyddio fel canllawiau o'r hyn sydd i ddod pan fydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Rydym yn ymwybodol y buasech chi a'r disgyblion yn buddio o gael eglurhâd pellach o sut fydd y 'normal newydd' yn edrych felly rydym wrthi yn creu fideo i ddangos yr holl newidiadau fydd yn digwydd, er mwyn sicrhau fod yr ysgol mor saff a phosib pan fydd y disgyblion yn dychwelyd.

Diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich amynedd a'ch dealltwriaeth yn ystod yr amser hyn, a buaswn yn hoffi eich gwneud chi yn ymwybodol fod cynnwys y llyfryn yma yn gallu newid yn dibynnu ar sawl ffactor, ond gyda'r nod cyffredin o gadw pawb yn saff.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu unrhyw bryderon, cysylltwch gyda'r ysgol os gwelwch yn dda.

Cofion cynnes,

Mrs Olwen Corben  
(Pennaeth)



### **Mynediad i'r ysgol a'r safle:**

- Dylai dysgwyr a rhieni/gwarchodwyr ddod i'r ysgol gan gerdded neu gan ddefnyddio trafndiaeth personol yn lle trafndiaeth gyhoeddus.
- Ni ddylai dysgwyr na rhieni/gwarchodwyr rannu ceir gyda teuluoedd eraill.
- Rhaid i reolau pellter corfforol gael ei dilyn yn y maes parcio/manau gollwng gyda digon o le rhwng chi a bobl eraill/ceir eraill.
- Bydd rhaid i ddysgwyr sydd yn teithio mewn tacsï preifat ddilyn canllawiau pellter cymdeithasol.
- Bydd y giatau ar gyfer mynediad wedi cael eu dangos yn glîr, gyda'r gweddill wedi eu cloi.
- Bydd staff wrth y giatau i arwain rhieni a dysgwyr.
- Mae arwyddion yn cael eu arddangos er mwyn atgoffa rhieni a dysgwyr o ddisgwyliadau'r ysgol. Bydd marciau ar y llawr er mwyn dangos y pellter o 2m.
- Bydd amser gollwng y dysgwyr ac amser nôl y dysgwyr yn wahanol i'r arfer – gweler yr amserlen.
- Rhieni/gwarchodwyr i ollwng y dysgwr wrth y giât flaen.
- Mae marciau clîr yn y maes parcio yn nodi 'man gollwng'. Gadewch eich plentyn gyda aelod o staff os gwelwch yn dda.
- System un ffordd – arwyddion yn dangos y llwybr.
- Llwybr dynodedig i'r holl ddisgyblion ei ddilyn – unwaith mae'r dysgwyr ar y safle, maent i fynd yn syth i olchi eu dwylo yna mynd yn ôl i'w dosbarthiadau, ble fydd y drysau, ble fydd y drysau yn aros ar agor tan fod holl aelodau o'r grŵp wedi cyrraedd. Does ddim angen mynd i'w rhesi.

### **Arddangos symptomau yn yr ysgol**

- Ni ddylai unrhyw staff, dysgwyr neu rhieni/gwarchodwyr sy'n teimlo'n sâl/dangos symptomau Covid-19 ddod i'r ysgol.
- Os oes unrhywun yn mynd yn sâl tra yn yr ysgol, maa'n rhaid iddynt adael yr ysgol mor fuan a phosib a dilyn canllawiau hunan-ynysu.
- Mi fydd yr ysgol yn adrodd unrhyw amheuaeth o achosion Covid-19 i'r Awdurdod Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Dylai'r rhai sydd yn dangos symptomau gael eu cadw ar wahan tan eu bod yn cael eu casglu o'r ysgol i fynd adref. Mi fydd hyn mewn ystafell ar wahan, fydd dan oruchwyliaeth o belter o 2m. Ein ystafell ynysu yw'r hen swyddfa.
- Dylai unrhywun sydd yn dangos symptomau aros adref am 7 diwrnod.
- Dylai unrhywun sydd yn byw gyda rhywun sydd yn dangos symptomau ond sydd dal yn iach aros adref am 14 diwrnod yn dechrau o'r diwrnod death y person cyntaf yn sâl.
- Ni ddylai unrhyw ddysgwr sydd hefo symptomau ddod i'r ysgol o gwbl.
- I'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, mae Covid-19 yn salwch ysgafn. Mae dysgwyr sydd wedi cael eu dosbarthu fel 'amddiffyn' oherwydd unrhyw gyflyrau meddygol oedd yn

bodoli eisioes wedi cael eu cynghori i ddilyn camau 'amddiffyn' penodol. Mae'r dysgwyr yma gyda cyflyrau meddygol oedd yn bodoli eisioes sydd yn eu rhoi nhw mewn perygl o salwch difrifol o ganlyniad i Covid-19 yn cael eu cynghori i ddilyn y mesurau amddiffyn yn drwyadl er mwyn cadw'n saff. Ni ydym yn disgwyl i'r dysgwyr yma fynychu'r ysgol yn ystod yr amser yma, a dylai'r dysgwyr barhau i dderbyn gymaint a phosib o gefnogaeth adref.

- Unwaith mae person yn amau fod ganddynt Covid-19, wedi cadarnhau fod ganddynt Covid-19 neu hefo symptomau Covid-19, mi fydd pob man maent wedi bod yn cael ei nodi a'i gadw'n wag. Bydd y manau yma yn cael eu glanhau yn drwyadl.



### **Cymorth Cyntaf**

- Mae man Cymorth Cyntaf ym mhob ystafell ddosbarth.
- Os yn trîn unrhyw glwyfau, mi fydd staff ysgol yn defnyddio offer amddiffyn personol (PPE) yr holl amser – mae fisor, mennyg a ffedogau ar gael ym mhob dosbarth.
- Rhaid i riant/gwarchodwr roi caniatâd i ddywgrwr fynychu meddygfa neu ysbytu yn ystod y pandemig.
- Os oes unrhyw amheuaeth (neu os nad ydynt yn gallu cael gafeal ar riant/gwarchodwr) cysylltwch a NHS Direct / Gwasanaethau brys am gymorth.
- Mi fydd y canllawiau arferol, yn dilyn polisi'r ysgol a'r asesiadau risg yn cael eu dilyn os fydd dysgwr yn anafu'n ddifrifol, neu os fydd rhywun gyda cyflwr meddygol yn gorfod mynd i'r ysbytu.
- Mae'r Uwch dîm rheoli yn fodlon mynd i'r ysbytu os nad yw riant/gwarchodwr yn gallu ac os mae caniatâd wedi ei gadarnhau.
- Bydd unrhyw ddywgrwr sydd wedi cael damwain toiled yn cael eu delio gan ddilyn canllawiau sydd ym mholisi'r ysgol, gyda cynnydd o offer amddiffyn personol ac annog mwy o annibyniaeth.

### **Dysgwyr yn cyrraedd i'r ysgol**

- Mi fydd rhieni i ddilyn llwybr penodol yn y maes parcio ac mi fydd yr holl ddywgrwr yn cael eu gollwng ar amseroedd gwahanol, wrth y prif giât. Mae hyn yn dileu unrhyw nifer ychwanegol o ymwelwyr ar dîr yr ysgol a meysydd chwarae.
- Ni chaniateir rhieni i ddod ar dîr yr ysgol.
- Rhaid dilyn rheolau pellter cymdeithasol yn yr ysgol, o'r giatiau ymlaen.
- Bydd llwybr penodol i bob dysgwr i'w ddilyn-unwaith mae'r dysgwyr ar y safle, maent i fynd yn syth i olchi eu dwylo yna mynd yn ôl i'w dosbarthiadau, ble fydd y drysau, ble fydd y drysau yn aros ar agor tan fod holl aelodau o'r grŵp wedi cyrraedd. Does ddim angen mynd i'w rhesi.
- Mae pob drws (ond am drysau tân, drysau toiledau a drysau diogelwch) i'w cadw ar agor i leihau halogiad.

- Os oes rhieni/gwarchodwyr angen siarad gyda aelod o staff, maent yn gallu drwy ffonio'r ysgol, e-bostio'r ysgol neu drwy blatfform dysgu digidol.

### **Addoliad Ysgol Gyfan**

- Ni fydd addoliad ysgol gyfan/addoliad cyfnod allweddol na gwasanaethau.
- Bydd addoliad ar y cyd yn cael ei gynnal yn y dosbarthiadau.

### **Teithio o amgylch yr ysgol**

- Ar hyn o bryd, mae ganddynt 33% o'r ysgol yn dod i mewn ar yr un adeg. Mae hyn yn cyd-fynd gyda canllawiau o hyd at 1/3 o poblogaeth yr ysgol ar unrhyw bryd.
- Bydd grŵpiau o blant yn aros yn eu dosbarthiadau gyda'r run staff. Mae cyfrifiadau wedi cael eu gwneud i sicrhau y niferoedd cywir ar gyfer y dosbarthiadau. Ni ddylai unrhyw blentyn fynd i unrhyw le yn yr adeilad ond am eu dosbarth a'u sinc a toiled penodol.
- Pellter cymdeithasol wedi ei fapio a'i farcio ar draws yr ysgol gan ddefnyddio marciau llawr.
- Poster i atgoffa pawb o reolau pellter cymdeithasol.
- Lleihau teithio o gwmpas yr ysgol gan aros yn yr un dosbarthiadau trwy'r dydd.
- Amserlen ar gyfer mynd i'r toiled lle mae'n bosib: 1 dysgwr yno ar y tro. Bydd un ciwbicl a sinc ar gael ar gyfer bob dosbarth/grŵp.
- Mae pob drws (ond am drysau tân, drysau toiledau a drysau diogelwch) i'w cadw ar agor i leihau halogiad.
- Sicrhau fod pob man cyhoeddus yn glîr, a gyda'r lleiaf o gyfyngiadau bosib.
- Pob drws/arwyneb i gael eu golchi yn rheolaidd gyda cadachau gwrth-factegol cyn ac ar ôl byrbryd, gan staff.
- Mi fydd pob dysgwr gyda pecyn dysgu sydd yn cynnwys gwaith ac unrhyw offer maent ei hangen. Bydd hyn yn lleihau rhannu ac felly yn lleihau croeshalogi.

### **Dosbarthiadau**

- Bydd marciau personol cyfeillgar ar lawr y dosbarth i'r disgyblion eistedd. Bydd hyn o leiaf 2 metr i ffwrdd o eraill.
- Bydd marciau yn y dosbarth i sicrhau pellter cymdeithasol.
- Bydd aelodau o staff o fewn y grŵp ar gael i helpu gyda toiledau, diheintio offer ac i atgoffa disgyblion o hylendid personol dda trwy gydol y diwrnod.
- Offer mawr, e.e beiciau a cheir, i gael eu diheintio ar ôl defnyddio gyda chadachau gwrthfacterol.
- Nid oes rhaid i ddisgyblion gwisgo gwisg ysgol. Disgyblion i ddod i'r ysgol yn gwisgo dillad sydd yn addas ar gyfer dysgu yn yr awyr agored – gan gynnwys hetiau ac eli haul. Bydd angen i'r disgyblion rhoi eli haul eu hunain arnynt.
- 2 oedolyn ar gael i bob grŵp os yn bosib.

- Byddem yn dysgu yn yr awyr agored lle'n bosib gan sicrhau pellter cymdeithasol gyda grwpiau eraill.

### **Amser Chwarae**

- Bydd amser chwarae gwahanol ar gyfer pob grŵp.
- Disgyblion i adael y dosbarth trwy'r drysau sydd yn arwain i'r tu allan, lle'n bosib, i osgoi coridorau.
- Staff priodl i oruchwylio yn ystod amseroedd chwarae.
- Ardaloedd snac i aros ar gau, disgyblion i ddod a snac eu hunain i'r dosbarth – ffrwyth os gwelwch yn dda.
- Pob disgybl i olchi dwylo ar ôl amser chwarae.
- Atgoffa disgyblion i gadw pellter cymdeithasol mewn modd gyfeillgar.
- Amser chwarae gwlyb: disgyblion i aros yn eu dosbarthiadau a chadw pellter cymdeithasol. Caiff y dysgwyr defnyddio iPad's ond angen cael eu diheintio wedyn gyda chadachau gwrthfacterol.
- Amseroedd chwarae yn cychwyn am 10yb – 11yb am floc o 15 munud. Mae hyn yn atal y disgyblion rhag cymysgu gydag eraill tu allan. Bydd disgyblion yn cael chwarae mewn parth penodol yn ystod amser chwarae. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y grwpiau yn cymysgu.

### **Amser Cinio**

- Bydd amseroedd cinio gwahanol wedi'w drefnu i sicrhau pellter cymdeithasol pan yn defnyddio'r toiled a chyfleusterau golchi dwylo – gweled yr amserlen.
- Annogir y disgyblion i ddod â chinio eu hunain a bwyta yn yr ystafell dosbarth.
- Bydd amseroedd chwarae gwahanol cyn ac ar ôl bwyta drefnu i sicrhau pellter cymdeithasol.
- Disgyblion i ddod â snac a chinio eu hunain.
- Bydd y disgyblion yn bwyta wrth desg penodol o fewn eu ystafell dosbarth.
- Bydd desgiau y dosbarth yn cael eu glanhau cyn ac ar ôl amser cinio.
- Disgyblion i olchi dwylo cyn ac ar ôl bwyta a gwaredu unrhyw sbwriel sydd ganddynt i'r biniau a ddarperir.
- Staff i oruchwylio eu grŵp tu allan ar bob achlysur.
- Ni chaniateir i'r disgyblion rhannu bwyd.
- Disgyblion i ddod a photeli dŵr eu hunain i ddefnyddio trwy gydol y diwnrod.
- Bwyta yn y dosbarth. Bydd hyn yn lleihau y risg o drosglwyddo haint. Nad ydym wedi clywed gan yr Awdurdod Lleol os chawn darparu cinio ysgol.
- Staff i sicrhau bod pellter cymdeithasol amser cinio gyda disgyblion yn eistedd 2 metr o'i gilydd.

- Yn yr achos yma, caiff y byrddau eu clirio o unrhyw annibendod, diheintio, ac yn hollol lan cyn caniatâu unrhyw bwyd neu snac ar y bwrdd.



### Glanhau

- Ysgol wedi'w lanhau yn drwyadl yn barod.
- Staff glanhau i sichrau bod pob arwyneb wedi'w lanhau yn drwyadlu cyn diwedd i diwrnod.
- Ysgol ar gau pob Dydd Gwener er mwyn ei lanhau yn drwyadl rhwng grwpiau gwahanol o ddisgyblion.
- Staff i lanhau arwynebau, drysau ac offer trwy gydol y diwrnod.
- Staff glanhau i barhau gydali oriau arferol ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

### Dysgu Cyfunol

- Tra bod y nifer o ddisgyblion yn cynyddu dros amser, caiff modelau eu adolygu i adlewyrchu opsiynau gwahanol.
- Bydd ysgolion ar agor o Ddydd Llun hyd at Ddydd Iau ac yn cau ar Ddydd Gwener i ddisgyblion sydd ddim yn gweithwyr allweddol na dysgwyr bregus.
- Mi fyddwn yn trefnu grwpiau penodol i fynychu'r ysgol.
- Bydd disgyblion, os bosib, yn dychwelyd i'w athro dosbarth gwreiddiol ac yn aros gyda nhw trwy gydol y diwrnod. Bydd y cymhorthydd dosbarth arferol hefyd yn aros gyda'r grŵp.
- Nid yw'r staff yn gallu mynd rhwng y grwpiau.
- Bydd athrawon yn cael CPA ar Ddydd Gwener sy'n cynnwys, cynllunio i'r wythnos nesaf (ar y wê ac i'r dosbarth) ac amser i ymateb i waith disgyblion ar y wê.
- Does dim disgwyl i'r athrawon cynllunio arwahan ar gyfer dysgu o bellter ac yn y dosbarth. Bydd pob grŵp yn derbyn yr un tasgau a'i gilydd.
- Bydd athrawon yn barhau i gysylltu gyda'r dysgwyr adref ar amser sydd yn cyfleus iddynt: Cyn, ar ôl, neu yn ystod oriau ysgol.
- Bydd staff yn cynorthwyo'r disgyblion gyda'i dysgu yn ogystal a pharatoi gweithgareddau i hyrwyddo eu lles a datblygu corfforol a chreadigol.
- Mae 'Dod i'r ysgol' yn rhoi'r cyfle i weld sut mae'r disgyblion yn gyrru ymlaen adref, oes ydynt angen unrhywbeth i'w helpu (adnoddau ayyb) ac iddynt cael y cyfle i weld eu ffrindiau ac athrawon eto.
- Mae 'Dal ati i ddysgu' yn cyfle i'r staff trafod gyda'r disgyblion, i'r disgyblion rhannau unrhyw meddyliau neu teimladau ac adlewyrchu beth sydd angen i'w wneud i symyd ymlaen gyda dysgu cyfunol y disgybl.
- Mae 'Paratoi' yn cyfle i'r disgyblion arfer i'r normal newydd. Bydd athrawon yn addysgu strategaethau datrys problemau, dyfalbarhau a sut i ddod o hyd i gymorth os oes angen i ddysgu o belter. Bydd angen rhannu'r rheolau a chanllawiau yn gyson tray n yr ysgol. Bydd hyn yn rhoi'r gwybodaeth i'r disgyblion o sut i aros yn diogel a

beth i ddisgwyl. Mae'n debyg y bydd y rheolau ar waith am gyfnod hir. Oherwydd hyn mae'n bwysig i'r disgyblion bod yn ymwybodol o'r rheolau a pham rydym angen eu dilyn.



### **Clwb ar ôl Ysgol**

- Ni fydd clwb ar ôl ysgol ar gael.

### **Cylch Meithrin**

- Ni fydd Cylch Meithrin ar gael.

### **Amserlen**

Mi fyddwn mewn cysylltiad I drefnu gweithwyr allweddol ac sut yr ydym am agora r 29ain o Fehefin.

### **Gwisg Ysgol**

Does dim rhaid i'r disgyblion gwisgo gwisgo ysgol pan meant yn dychwelyd i'r ysgol ar Fehefin 29ain.

Ni ddylai'r disgyblion ail-wisgo yr un ddillad y diwnrod wedyn.

Annogir y disgyblion i wisgo dillad sydd yn addas ar gyfer yr awyr agored.